

Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru (sail-2006)

Adroddiad Cryno



Cynnwys

| | Tudalen |
|---|---------|
| Cyflwyniad | 3 |
| Cefndir | 7 |
| Trosolwg o'r Canlyniadau | 13 |
| Methodoleg a Thybiaethau | 23 |
| Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol a Lleol | 29 |
| Gwaith Pellach | 39 |
| Gwybodaeth am Ansawdd | 43 |
| Gwybodaeth Bellach | 47 |

Cyflwyniad

Ar 30 Mehefin 2008, cafodd amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer y 22 ardal awdurdod unedol yng Nghymru eu cyhoeddi am y tro cyntaf.

Mae diddordeb mawr mewn data poblogaeth ac ymfudiad ar gyfer Cymru, ac felly mae galw cryf am amcanestyniadau ar lefel awdurdodau lleol. Mae angen i'r rheiny sy'n cynllunio at y dyfodol, er mwyn darparu gwasanaethau a helpu ffurfio polisiâu cynaliadwy, ystyried y boblogaeth yn ôl oedran a rhyw. Mae amcanestyniadau poblogaeth yn darparu amcangyfrifon o faint y boblogaeth yn y dyfodol, ac maent yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch genedigaethau, marwolaethau ac ymfudiad.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth gryno ar yr amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2006 ar gyfer awdurdodau lleol. Mae'r adroddiad yn esbonio beth yw amcanestyniadau poblogaeth, sut y gellir eu defnyddio a sut na ddylid eu defnyddio, y ffordd yr aed ati a'r dulliau cyffredinol a ddefnyddiwyd. Mae hyn yn cynnwys adran gryno sy'n cymharu ac yn cyferbynnu patrymau ar draws yr holl awdurdodau lleol.

Mae'r adroddiad hwn yn ffurfio rhan o gyfres o gyhoeddiadau ar yr amcanestyniadau poblogaeth llywodraeth leol. Mae adroddiad awdurdodau lleol hefyd wedi'i gyhoeddi sy'n cyflwyno dadansoddiadau manwl o'r amcanestyniadau poblogaeth ar ffurf siartiau, tablau a thestun. Mae taflen ganllaw fer ar yr amcanestyniadau hefyd wedi cael ei chyhoeddi, ynghyd â rhestr o gwestiynau cyffredin. Mae'r rhain ar gael ar dudalen we'r amcanestyniadau poblogaeth:

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Mae ciwbiau data manwl hefyd wedi cael eu cyhoeddi ar ein gwefan StatsCymru. Os yw'r symbol yn ymddangos wrth ymyl Tabl neu Ffigur yn y cyhoeddiad hwn, mae hwn yn arwyddo bod data mwy manwl ar gael ar StatsCymru:

www.statscymru.cymru.gov.uk 

Gan mai hwn yw'n cyhoeddiad cyntaf ar amcanestyniadau poblogaeth llywodraeth leol, byddem yn croesawu adborth ar ei gynnwys a'i gyflwyniad. I ddarparu adborth neu am ymholiadau cyffredinol, cysylltwch os gwelwch yn dda â:

e-bost: stats.popcensus@wales.gsi.gov.uk

ffôn: 029 2082 5808

Ystadegau Demograffi, Treftadaeth a Chydraddoldeb
Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Cefndir

Beth yw amcanestyniadau poblogaeth?

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn darparu amcangyfrifon o faint poblogaeth y dyfodol, ac maent yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch genedigaethau, marwolaethau ac ymfudiad. Mae'r tybiaethau yn seiliedig ar dueddiadau yn y gorffennol. Nid yw'r amcanestyniadau llywodraeth leol ond yn dangos beth allai ddigwydd petai'r tueddiadau diweddar yn parhau. Nid yw amcanestyniadau a gaiff eu llunio yn y modd hwn yn caniatáu ar gyfer effeithiau polisiau llywodraeth leol neu'r llywodraeth ganolog ar lefelau poblogaeth, dosbarthiad a newid yn y dyfodol.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn llunio amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol ar gyfer Cymru, ac ar gyfer gwledydd eraill y DU. Caiff y rhain eu llunio bob dwy flynedd gan amlaf. Mae gwybodaeth bellach yn yr adran ar Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol a Lleol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am lunio amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru.

Y defnydd o amcanestyniadau poblogaeth yr awdurdodau lleol

Mae llawer o ddiddordeb mewn data poblogaeth ac ymfudiad ar gyfer Cymru, ac felly mae gofyn mawr am amcanestyniadau ar lefel awdurdodau lleol. Mae angen i'r rheiny sy'n cynllunio at y dyfodol, er mwyn darparu gwasanaethau a helpu ffurfio polisiau cynaliadwy, ystyried y boblogaeth yn ôl oedran a rhyw.

Gellir defnyddio amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer cynllunio gwasanaethau ac ar gyfer amcangyfrif yr angen yn y dyfodol (er enghraifft - nifer yr athrawon/ysgolion, y ddarpariaeth o wasanaethau cymdeithasol). Gellir defnyddio'r rhain at ddibenion cynllunio tai ee mewn Cynlluniau Datblygu Awdurdodau Lleol. Gall amcanestyniadau poblogaeth adnabod tueddiadau a fydd yn sail i bolisiau a ddatblygir yn y dyfodol.

Mae gofyn tebyg am amcanestyniadau cartrefi awdurdodau lleol at ddibenion cynllunio. Caiff amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol eu defnyddio fel sail ar gyfer llunio amcanestyniadau aelwydydd.

Cyfyngiadau amcanestyniadau poblogaeth

Mae cyfyngiadau i amcanestyniadau poblogaeth. Nid yw'r amcanestyniadau poblogaeth llywodraeth leol hyn ond yn dangos yr hyn a allai ddigwydd petai'r tybiaethau seiliedig ar dueddiadau'n dod yn wir. Nid ydynt yn rhagolygon ar sail polisi o'r hyn a allai ddigwydd ac nid ydyn yn caniatáu ar gyfer effeithiau polisiau llywodraeth leol neu'r llywodraeth ganolog ar lefelau poblogaeth, dosbarthiad a newid yn y dyfodol.

Gan fod y broses o newid demograffig yn un gronnol, mae amcanestyniadau'n dod yn fwyfwy ansicr y pellaf y maent yn edrych ymlaen. Mae newid demograffig yn effeithio ar rai poblogaethau'n gyflymach ac yn fwy difrifol nag ar eraill. Oherwydd maint llifoedd ymfudiad, mae tybiaethau ymfudiad i rai awdurdodau lleol yn fwy allweddol na thybiaethau ffrwythlondeb a marwolaethau. Felly, gall tybiaethau ymfudiad gael effaith sylweddol ar rai ardaloedd yn y tymor hir.

Er mwyn darlunio'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywion hefyd wedi cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth. Mae'r rhain yn cynnwys amcanestyniad dim ymfudiad (newid naturiol yn unig) i ddarlunio poblogaeth amcanestynedig pob awdurdod lleol pe na bai unrhyw fewnfudo nac allfudo yn y dyfodol. Mae dau amcanestyniad ar sail amrywion hefyd wedi cael eu cyhoeddi.

Mae amcanestyniadau poblogaeth llywodraeth leol yn dangos maint a phroffil tebygol poblogaeth os bydd tueddiadau presennol yn parhau. Gall hyn arwain at gyflwyno polisiâu newydd, a allai beri na fyddai'r amcanestyniadau newydd yn cael eu gwireddu o ganlyniad iddynt. Golyga hyn y bydd yr amcanestyniadau poblogaeth wedi cyflawni un o'u prif swyddogaethau - sef darlunio canlyniadau tueddiadau demograffig diweddar a phresennol, a chaniatáu cyfle i lunwyr polisiâu a chynllunwyr darparu gwasanaethau newid hyn.

Hanes amcanestyniadau llywodraeth leol yng Nghymru

Dyma'r tro cyntaf i amcanestyniadau poblogaeth gael eu cyhoeddi ar gyfer y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Roedd y Swyddfa Gymreig wedi bwriadu cynhyrchu amcanestyniadau llywodraeth leol seiliedig ar 1996, fodd bynnag nid oeddent yn gallu cynhyrchu canlyniadau ystyrlon ar lefel llywodraeth leol.

Cafodd yr ONS ei chomisiynu i gynhyrchu amcanestyniadau llywodraeth leol seiliedig ar 1998 ac wedyn rhai seiliedig ar 2003 gan ddefnyddio'r model a ddefnyddir ar gyfer amcanestyniadau llywodraeth leol yn Lloegr. O dan fethodoleg yr ONS, roedd tybiaethau ynghylch ffrwythlondeb a marwolaethau lleol yn ôl oedran a rhyw yn seiliedig ar wybodaeth cofrestru genedigaethau a marwolaethau dros y pum mlynedd cynt. Fel rhan o'r broses amcanestyniadau, am bob blwyddyn yr amcanestynwyd ymlaen, cafodd y cyfraddau ffrwythlondeb a marwolaethau eu graddio, fel bod y cyfraddau cenedlaethol a'r niferoedd a amcanestynwyd o enedigaethau a marwolaethau'n gyson ag amcanestyniadau cenedlaethol.

Fodd bynnag, yn ystod y broses sicrhau ansawdd, i'r ddwy set o amcanestyniadau (seiliedig ar 1998 a seiliedig ar 2003), cymerwyd y penderfyniad i beidio â chyhoeddi'r amcanestyniadau ar lefel awdurdod lleol, gan nad oedd y fethodoleg wedi cynhyrchu canlyniadau cyson ac ystyrlon. Er bod graddio'r genedigaethau a'r marwolaethau wedi sicrhau bod y cyfanswm o enedigaethau a marwolaethau'n gyson â'r amcanestyniadau cenedlaethol, nid oedd y cyfraddau lleol yn adlewyrchu tueddiadau diweddar lleol.

Roedd graddio hefyd yn fwy arwyddocaol gydag ardaloedd bach megis y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Arweiniodd hyn at i'r amcanestyniadau gael eu cyhoeddi ar lefel ranbarthol.

Dull o gynhyrchu amcanestyniadau llywodraeth leol

Mae dull newydd wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer datblygu'r amcanestyniadau awdurdodau lleol seiliedig ar 2006. Golyga'r dull hwn ddefnyddio data a thueddiadau lleol, ond ni chaiff amcanestyniadau'r awdurdodau lleol eu gorfodi i gyfateb i'r amcanestyniad poblogaeth genedlaethol ar lefel Cymru gyfan.

Mae'r amcanestyniadau wedi cael eu datblygu gan gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol a defnyddwyr allweddol yng Nghymru - trwy weithgor poblogaeth is-genedlaethol Cymru. Ffurfiwyd y gweithgor hwn yn wreiddiol fel is-grŵp o Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru. Mae'r gweithgor wedi cyfarfod yn rheolaidd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae wedi bod yn fforwm ar gyfer trafodaeth dechnegol ar fethodoleg, sail a data hanesyddol, a lansio'r amcanestyniadau poblogaeth. Mae aelodau'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol gyda gwybodaeth a/neu brofiad o ddata demograffig ac amcanestyniadau poblogaeth.

Mae diweddariadau rheolaidd (papurau a chyflwyniadau) hefyd wedi cael eu darparu mewn cyfarfodydd llawn o Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru. Ceir gwybodaeth bellach ar y Pwyllgor hwn, gan gynnwys ei aelodaeth ar:

www.dataunitwales.gov.uk/WSLC.asp?lang=cy

Trosolwg o'r Canlyniadau

Cyfanswm y Boblogaeth

Tabl 1: Cyfanswm y Boblogaeth a'r newid mewn canran ers 2006 yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd dethol

| | 2011 | | 2016 | | 2021 | | 2026 | | 2031 | |
|--------------------------|------------|-------|------------|-------|------------|-------|------------|-------|------------|-------|
| | Poblogaeth | Newid | Poblogaeth | Newid | Poblogaeth | Newid | Poblogaeth | Newid | Poblogaeth | Newid |
| Ynys Môn | 69,700 | 1% | 70,600 | 3% | 71,400 | 4% | 71,800 | 4% | 71,800 | 4% |
| Gwynedd | 121,000 | 2% | 124,000 | 5% | 127,100 | 8% | 130,000 | 10% | 132,300 | 12% |
| Conwy | 114,300 | 3% | 117,500 | 6% | 120,900 | 9% | 124,000 | 11% | 126,500 | 14% |
| Sir Ddinbych | 99,800 | 4% | 103,800 | 8% | 107,800 | 12% | 111,600 | 16% | 114,800 | 19% |
| Sir y Fflint | 152,100 | 1% | 154,100 | 3% | 155,700 | 4% | 156,700 | 4% | 156,600 | 4% |
| Wrecsam | 135,100 | 3% | 139,200 | 6% | 143,000 | 9% | 146,400 | 12% | 149,400 | 14% |
| Powys | 136,100 | 4% | 141,100 | 8% | 146,100 | 11% | 150,600 | 15% | 154,300 | 18% |
| Ceredigion | 79,900 | 4% | 82,900 | 7% | 85,800 | 11% | 88,500 | 15% | 90,600 | 17% |
| Sir Benfro | 121,100 | 3% | 125,100 | 7% | 129,000 | 10% | 132,300 | 13% | 134,800 | 15% |
| Sir Gaerfyrddin | 184,900 | 4% | 192,100 | 8% | 199,100 | 12% | 205,300 | 15% | 210,600 | 18% |
| Abertawe | 233,000 | 3% | 240,200 | 6% | 247,800 | 9% | 254,900 | 12% | 261,300 | 15% |
| Castell-Nedd Port Talbot | 141,500 | 3% | 146,600 | 7% | 151,700 | 11% | 156,400 | 14% | 160,700 | 17% |
| Pen-y-Bont ar Ogwr | 136,800 | 3% | 141,400 | 7% | 146,000 | 10% | 150,100 | 13% | 153,700 | 16% |
| Bro Morgannwg | 128,100 | 4% | 133,300 | 8% | 138,600 | 12% | 143,600 | 16% | 147,900 | 20% |
| Caerdydd | 330,200 | 4% | 345,600 | 9% | 362,300 | 14% | 378,700 | 19% | 394,200 | 24% |
| Rhondda Cynon Taf | 238,400 | 2% | 243,400 | 4% | 248,100 | 6% | 251,900 | 8% | 254,900 | 9% |
| Merthyr Tudful | 55,500 | 0% | 55,500 | 0% | 55,300 | 0% | 54,800 | -1% | 54,100 | -3% |
| Caerffili | 174,400 | 2% | 177,700 | 4% | 180,700 | 5% | 182,800 | 7% | 184,200 | 7% |
| Blaenau Gwent | 69,700 | 1% | 70,500 | 2% | 71,100 | 3% | 71,300 | 3% | 71,200 | 3% |
| Tor-faen | 92,000 | 1% | 93,200 | 2% | 94,100 | 3% | 94,600 | 4% | 94,700 | 4% |
| Sir Fynwy | 90,700 | 3% | 93,400 | 6% | 96,100 | 9% | 98,500 | 12% | 100,400 | 14% |
| Casnewydd | 143,500 | 2% | 147,700 | 5% | 152,000 | 8% | 156,000 | 11% | 159,400 | 14% |

Rhwng canol 2006 a chanol 2031, yr amcanestyniad yw y bydd cynnydd ym mhoblogaeth mwyaf ym mwyaf yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Yr unig awdurdod lleol lle mae'r amcanestyniad yn nodi na fydd cynnydd yn y boblogaeth yw Merthyr Tudful, lle rhagwelir y bydd gostyngiad o oddeutu 3 y cant erbyn canol 2031.

Yn ôl yr amcanestyniadau, bydd cynnydd o fwy na 10 y cant rhwng canol 2006 a chanol 2031 ym mwyaf yr awdurdodau lleol (15). Yn ôl yr amcanestyniad, bydd y twf mwyaf yn y boblogaeth (24 y cant) yng Nghaerdydd erbyn canol 2031.

Cyfanswm y Boblogaeth yn ôl Rhyw

Yn ôl yr amcanestyniadau, bydd cynnydd yn nifer y dynion a nifer y menywod ym mwyaf yr awdurdodau lleol yng Nghymru rhwng canol 2006 a chanol 2031. Yr unig awdurdodau lleol nad ydynt yn dilyn tueddiad yr amcanestyniad yw Merthyr Tudful, gyda gostyngiad yn nifer y dynion a'r menywod, a Blaenau Gwent, gyda chynnydd bach (llai nag 1 y cant) yn nifer y dynion yn unig.

Yn ôl yr amcanestyniad, bydd nifer y dynion yn cynyddu hyd at 30 y cant a nifer y menywod yn cynyddu hyd at 19 y cant ledled yr awdurdodau lleol yng Nghymru. 17 y cant yw'r cynnydd ar gyfartaledd yn nifer y dynion mewn unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru erbyn canol 2031, ac 13 y cant yw'r cynnydd ar gyfartaledd yn nifer y menywod mewn unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru erbyn canol 2031.

Yn 2006, roedd 48.7 y cant o boblogaeth Cymru yn ddynion. Rhwng canol 2006 a chanol 2031, yr amcanestyniad yw y bydd mwyafrif (20) yr awdurdodau lleol yn gweld cynnydd yng nghanran y dynion yn eu poblogaeth. Mae hyn yn golygu y bydd cydbwysedd bras o ddynion a menywod yn y rhan fwyaf o awdurdodau erbyn 2031, gyda 49.4 y cant o'r boblogaeth yn ddynion. Rhagwelir y bydd y bwlch rhwng canran y dynion a'r menywod yn cynyddu mewn dau awdurdod lleol, sef Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf.

Er bod disgwyl i ganran y dynion gynyddu, dim ond tri awdurdod lleol (Caerdydd, Ceredigion ac Abertawe) fydd â mwy o ddynion na menywod erbyn canol 2031 yn ôl yr amcanestyniad.

Genedigaethau, Marwolaethau a Newid Naturiol

Tabl 2: Nifer y genedigaethau, marwolaethau a newid naturiol yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd dethol

| | 2010/11 | | | 2020/21 | | | 2030/31 | | |
|--------------------------|----------------|---------------|----------------|----------------|---------------|----------------|----------------|---------------|----------------|
| | Genedig-aethau | Marwol-aethau | Newid Naturiol | Genedig-aethau | Marwol-aethau | Newid Naturiol | Genedig-aethau | Marwol-aethau | Newid Naturiol |
| Ynys Môn | 800 | 800 | 0 | 700 | 800 | -100 | 600 | 900 | -200 |
| Gwynedd | 1,400 | 1,200 | 200 | 1,400 | 1,200 | 200 | 1,400 | 1,400 | 0 |
| Conwy | 1,100 | 1,400 | -300 | 1,100 | 1,400 | -300 | 1,100 | 1,600 | -500 |
| Sir Ddinbych | 1,000 | 1,100 | -100 | 1,100 | 1,200 | -100 | 1,000 | 1,300 | -300 |
| Sir y Fflint | 1,700 | 1,400 | 300 | 1,600 | 1,400 | 200 | 1,500 | 1,700 | -200 |
| Wrecsam | 1,700 | 1,300 | 400 | 1,600 | 1,300 | 300 | 1,600 | 1,500 | 100 |
| Powys | 1,300 | 1,500 | -200 | 1,400 | 1,600 | -200 | 1,300 | 1,900 | -600 |
| Ceredigion | 700 | 700 | 0 | 700 | 800 | -100 | 700 | 900 | -200 |
| Sir Benfro | 1,300 | 1,400 | -100 | 1,300 | 1,400 | -100 | 1,200 | 1,600 | -400 |
| Sir Gaerfyrddin | 2,000 | 2,100 | -100 | 1,900 | 2,200 | -200 | 1,900 | 2,500 | -600 |
| Abertawe | 2,800 | 2,300 | 400 | 2,800 | 2,200 | 600 | 2,800 | 2,400 | 300 |
| Castell-Nedd Port Talbot | 1,600 | 1,500 | 100 | 1,600 | 1,500 | 200 | 1,600 | 1,600 | 0 |
| Pen-y-Bont ar Ogwr | 1,600 | 1,400 | 200 | 1,600 | 1,400 | 200 | 1,600 | 1,600 | 0 |
| Bro Morgannwg | 1,400 | 1,200 | 200 | 1,500 | 1,200 | 200 | 1,400 | 1,400 | 0 |
| Caerdydd | 4,700 | 2,600 | 2,200 | 5,100 | 2,400 | 2,700 | 4,900 | 2,500 | 2,400 |
| Rhondda Cynon Taf | 3,000 | 2,300 | 700 | 2,900 | 2,300 | 600 | 2,700 | 2,500 | 200 |
| Merthyr Tudful | 700 | 500 | 100 | 600 | 500 | 100 | 500 | 600 | 0 |
| Caerffili | 2,200 | 1,600 | 500 | 2,100 | 1,700 | 400 | 1,900 | 1,900 | 100 |
| Blaenau Gwent | 900 | 800 | 100 | 800 | 700 | 100 | 700 | 800 | -100 |
| Tor-faen | 1,200 | 900 | 300 | 1,100 | 900 | 200 | 1,000 | 1,000 | 0 |
| Sir Fynwy | 800 | 900 | -100 | 900 | 1,000 | -100 | 800 | 1,100 | -300 |
| Casnewydd | 1,900 | 1,300 | 500 | 1,900 | 1,300 | 600 | 1,800 | 1,400 | 400 |

❖ Genedigaethau

Dyma'r disgwyliadau ledled Cymru ar gyfer cyfraddau geni ymysg pobl o oedrannau gwahanol:

- disgwylir cynnydd ymysg menywod 20-24 oed tan 2007/08, yna bydd y gyfradd yn eithaf gwastad tan 2030/31;
- disgwylir cynnydd ymysg menywod 25-29 oed ym mlynnyddoedd cyntaf yr amcanestyniad, yna bydd y gyfradd yn aros yn weddol wastad tan 2030/31;
- disgwylir cynnydd ymysg menywod 30-34 a 35-39 oed tan 2010/33, yna gostyngiad bach i lefel ychydig islaw 2005/06;
- disgwylir cynnydd ymysg menywod 40+ tan 2010/11, yna gostyngiad bach, ond bydd y lefelau'n parhau'n uwch na 2005/06.

Mae'r patrymau oed penodol yn awgrymu y bydd nifer y genedigaethau yn cynyddu yn ystod blynyddoedd cyntaf cyfnod yr amcanestyniadau, cyn gostwng erbyn 2031/31.

Fodd bynnag, bydd nifer a phroffil oedran y menywod mewn unrhyw awdurdod lleol yn newid o flwyddyn i flwyddyn, felly bydd hyn yn effeithio ar nifer y genedigaethau a amcanir.

❖ **Marwolaethau**

Ar y cyfan, amcanir y bydd cyfraddau marwolaeth pob oedran yng Nghymru yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad. Fodd bynnag, os yw'r cyfraddau marwolaeth yn gostwng, mae hyn yn golygu bod pobl yn byw'n hŷn (sydd â chyfraddau marwolaeth uwch), ac felly amcanir y bydd nifer y marwolaethau'n dechrau cynyddu o oddeutu 2015/16.

❖ **Newid Naturiol**

Yn 2005/06, roedd mwy o enedigaethau na marwolaethau mewn 12 awdurdod lleol yng Nghymru.

Dyma'r amcanestyniad:

- Bydd mwy o enedigaethau na marwolaethau mewn 14 awdurdod lleol yn 2010/11, a bydd cydbwysedd rhwng genedigaethau a marwolaethau yng Ngheredigion ac Ynys Môn.
- Bydd mwy o enedigaethau na marwolaethau yn yr 14 awdurdod lleol hyn yn 2020/21; fodd bynnag, bydd mwy o farwolaethau na genedigaethau yng Ngheredigion ac Ynys Môn;
- Erbyn 2030/31, bydd mwy o enedigaethau na marwolaethau mewn 6 awdurdod lleol yn unig, a bydd cydbwysedd rhwng genedigaethau a marwolaethau mewn chwe awdurdod arall (Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Merthyr Tudful a Thor-faen).

Mae'r gostyngiad a amcanir yn nifer yr awdurdodau â mwy o enedigaethau na marwolaethau yn sgil y newidiadau a amcanir i broffil oedran a rhyw pob awdurdod lleol - er enghraifft nifer lai o fenywod yn y grwpiau oedran â chyfraddau ffrwythlondeb uchel (e.e. 25 - 34 oed) a nifer fwy o bobl yn y grwpiau oedran â chyfraddau marwolaeth uwch (e.e. 85 oed ac yn hŷn).

Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb

Tabl 3: Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd dethol

| | 2005/06 | 2010/11 | 2020/21 | 2030/31 |
|--------------------------|---------|---------|---------|---------|
| Ynys Môn | 2.02 | 2.10 | 2.04 | 2.03 |
| Gwynedd | 1.90 | 2.00 | 1.92 | 1.92 |
| Conwy | 2.03 | 2.12 | 2.04 | 2.04 |
| Sir Ddinbych | 1.96 | 2.05 | 1.98 | 1.98 |
| Sir y Fflint | 1.86 | 1.94 | 1.88 | 1.87 |
| Wrecsam | 2.00 | 2.09 | 2.01 | 2.01 |
| Powys | 2.05 | 2.16 | 2.08 | 2.08 |
| Ceredigion | 1.44 | 1.53 | 1.46 | 1.46 |
| Sir Benfro | 2.13 | 2.22 | 2.15 | 2.15 |
| Sir Gaerfyrddin | 1.92 | 2.00 | 1.94 | 1.94 |
| Abertawe | 1.75 | 1.83 | 1.77 | 1.76 |
| Castell-Nedd Port Talbot | 1.91 | 1.99 | 1.93 | 1.93 |
| Pen-y-Bont ar Ogwr | 1.96 | 2.04 | 1.98 | 1.98 |
| Bro Morgannwg | 1.84 | 1.93 | 1.86 | 1.86 |
| Caerdydd | 1.68 | 1.77 | 1.69 | 1.69 |
| Rhondda Cynon Taf | 1.87 | 1.94 | 1.89 | 1.88 |
| Merthyr Tudful | 1.91 | 1.97 | 1.93 | 1.93 |
| Caerffili | 1.94 | 2.01 | 1.95 | 1.95 |
| Blaenau Gwent | 1.90 | 1.96 | 1.92 | 1.91 |
| Tor-faen | 2.05 | 2.13 | 2.07 | 2.07 |
| Sir Fynwy | 1.93 | 2.03 | 1.95 | 1.95 |
| Casnewydd | 1.97 | 2.05 | 1.99 | 1.98 |

Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb yw nifer cyfartalog y plant a fyddai'n cael eu geni i bob menyw os byddai menywod yn profi'r cyfraddau ffrwythlondeb penodol i'w hoedran yn y flwyddyn dan sylw drwy gydol eu cyfnod planta.

Mae disgwyl i'r Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb ledled Cymru gynyddu tan 2010/11 ac yna gostwng yn araf tan 2030/31, ond bydd y lefelau ychydig yn uwch nag yn 2005/06.

Disgwylir i'r Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb gynyddu ym mhob awdurdod lleol rhwng 2005/06 a 2010/11.

Disgwylir i'r Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb ostwng ym mhob awdurdod lleol rhwng 2010/11 a 2020/21, ond bydd y lefelau'n uwch na lefelau 2005/06.

Bydd y Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb yn wastad rhwng 2020/21 a 2030/31 yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, heblaw am Ynys Môn, Sir y Fflint, Abertawe, Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent a Chasnewydd, lle bydd gostyngiad bach.

Yn 2030/31, rhagwelir y bydd y Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb yn uwch o hyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru o'i gymharu â lefelau 2005/06, felly rhagwelir y bydd mwy o enedigaethau os bydd nifer a phroffil oedran menywod yn aros yr un fath.

Ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) yw'r lefel ffrwythlondeb y mae ei angen i'r boblogaeth adnewyddu'i hun yn llwyr yn yr hirdymor gyda chyfraddau marwolaeth gwastad a heb unrhyw ymfudo. Drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad, amcanir y bydd Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb pum awdurdod lleol yng Nghymru yn cyfateb â'r ffrwythlondeb lefel adnewyddu neu'n uwch am flwyddyn neu fwy, sef Ynys Môn, Conwy, Powys, Sir Benfro a Thor-faen.

Disgwyliad oes adeg geni

Tabl 4: Disgwyliad oes adeg geni yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd dethol

| | 2005/06 | 2010/11 | 2020/21 | 2030/31 |
|--------------------------|---------|---------|---------|---------|
| Ynys Môn | 79.7 | 81.0 | 82.6 | 83.5 |
| Gwynedd | 79.9 | 81.3 | 82.8 | 83.7 |
| Conwy | 79.4 | 80.7 | 82.4 | 83.2 |
| Sir Ddinbych | 79.1 | 80.5 | 82.1 | 83.0 |
| Sir y Fflint | 79.1 | 80.6 | 82.2 | 83.1 |
| Wrecsam | 79.3 | 80.6 | 82.3 | 83.1 |
| Powys | 80.5 | 81.8 | 83.3 | 84.1 |
| Ceredigion | 81.4 | 82.4 | 83.8 | 84.6 |
| Sir Benfro | 78.9 | 80.4 | 82.0 | 83.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 79.1 | 80.6 | 82.3 | 83.2 |
| Abertawe | 79.3 | 80.7 | 82.3 | 83.2 |
| Castell-Nedd Port Talbot | 78.8 | 80.1 | 81.8 | 82.8 |
| Pen-y-Bont ar Ogwr | 78.9 | 80.3 | 81.9 | 82.8 |
| Bro Morgannwg | 80.1 | 81.1 | 82.7 | 83.6 |
| Caerdydd | 79.0 | 80.5 | 82.1 | 83.0 |
| Rhondda Cynon Taf | 78.8 | 80.1 | 81.8 | 82.7 |
| Merthyr Tudful | 78.4 | 80.0 | 81.7 | 82.6 |
| Caerffili | 78.5 | 80.1 | 81.7 | 82.7 |
| Blaenau Gwent | 77.5 | 79.3 | 81.0 | 82.0 |
| Tor-faen | 80.6 | 81.1 | 82.7 | 83.5 |
| Sir Fynwy | 80.9 | 82.0 | 83.5 | 84.3 |
| Casnewydd | 78.9 | 80.2 | 81.8 | 82.8 |

Disgwyliad oes adeg geni yw'r oed y disgwylir i berson fyw os byddant yn profi cyfraddau marwolaeth eu hawdurdod lleol adeg eu geni, trwy gydol eu bywyd. Bydd disgwyliad oes unigolyn felly yn newid wrth i gyfraddau marwolaeth newid trwy gydol ei fywyd.

Ledled Cymru, rhagwelir y bydd disgwyliad oes yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Rhagwelir y bydd cynnydd parhaus yn y disgwyliad oes ym mhob awdurdod lleol tan 2030/31.

Ym mhob un o'r blynyddoedd dethol, yn ôl yr amcanestyniad bydd y disgwyliad oes isaf ym Mlaenau Gwent a'r uchaf yng Ngheredigion. Rhwng 2005/06 a 2030/31, rhagwelir y bydd disgwyliad oes yn cynyddu rhwng 77.5 a 81.4 (Blaenau Gwent a Cheredigion ill dau) i 82.0 a 84.6 (Blaenau Gwent a Cheredigion ill dau).

Er y rhagwelir mai ym Mlaenau Gwent, Merthyr Tudful a Chaerffili y bydd y disgwyliad oes dros y cyfnod tan 2030/31, rhagwelir mai dyma ble bydd y cynnydd mwyaf mewn disgwyliad oes (4.5 mlynedd, 4.2 mlynedd a 4.2 mlynedd yn y drefn honno).

Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r gostyngiadau a ddisgwylir yn y cyfraddau marwolaeth a fynegir yn yr amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol. Defnyddiwyd y rhain yn yr amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol i ddarogan newidiadau i'r cyfraddau marwolaeth yn y dyfodol.

Ymfudo

Mae lefel wastad wedi cael ei rhagdybio ar gyfer ymfudo i mewn ac allan ar gyfer pob awdurdod lleol, yn seiliedig ar y mewnfudo i mewn ac allan o bob awdurdod lleol dros y pum mlynedd diwethaf.

Tabl 5: Lefelau ymfudo a ragdybir ar gyfer cyfnod yr amcanestyniad yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd dethol

| | Cyfanswm Ymfudo | | | Ymfudiad Mewnol | | | Ymfudiad Rhyngwladol | | |
|--------------------------|-----------------|--------|-------|-----------------|--------|-------|----------------------|-------|-------|
| | Mewn | Allan | Net | Mewn | Allan | Net | Mewn | Allan | Net |
| Ynys Môn | 2,500 | 2,300 | 200 | 2,400 | 2,200 | 200 | 100 | 100 | 0 |
| Gwynedd | 5,400 | 4,900 | 400 | 5,000 | 4,700 | 400 | 300 | 300 | 100 |
| Conwy | 5,400 | 4,500 | 900 | 5,200 | 4,200 | 1,000 | 200 | 300 | 0 |
| Sir Ddinbych | 5,000 | 4,100 | 900 | 4,800 | 3,900 | 900 | 200 | 200 | 0 |
| Sir y Fflint | 5,000 | 4,900 | 100 | 4,800 | 4,600 | 100 | 200 | 300 | 0 |
| Wrecsam | 4,100 | 3,700 | 400 | 3,800 | 3,400 | 400 | 400 | 300 | 100 |
| Powys | 5,900 | 4,700 | 1,200 | 5,700 | 4,500 | 1,200 | 300 | 300 | 0 |
| Ceredigion | 5,800 | 5,200 | 600 | 5,400 | 4,900 | 500 | 400 | 300 | 200 |
| Sir Benfro | 4,500 | 3,600 | 800 | 4,200 | 3,400 | 800 | 300 | 200 | 100 |
| Sir Gaerfyrddin | 6,800 | 5,200 | 1,600 | 6,400 | 4,800 | 1,700 | 300 | 400 | -100 |
| Abertawe | 9,100 | 8,200 | 900 | 7,700 | 7,300 | 400 | 1,400 | 900 | 500 |
| Castell-Nedd Port Talbot | 4,300 | 3,500 | 800 | 4,200 | 3,200 | 1,000 | 100 | 300 | -200 |
| Pen-y-Bont ar Ogwr | 4,100 | 3,500 | 700 | 3,900 | 3,200 | 700 | 200 | 200 | 0 |
| Bro Morgannwg | 5,800 | 4,900 | 800 | 5,200 | 4,300 | 800 | 600 | 600 | 0 |
| Caerdydd | 19,200 | 18,500 | 600 | 15,200 | 15,700 | -600 | 4,000 | 2,800 | 1,200 |
| Rhondda Cynon Taf | 6,300 | 6,000 | 300 | 5,600 | 5,300 | 300 | 600 | 700 | 0 |
| Merthyr Tudful | 1,200 | 1,400 | -100 | 1,200 | 1,300 | -100 | 100 | 100 | 0 |
| Caerffili | 4,500 | 4,300 | 100 | 4,300 | 4,000 | 300 | 200 | 400 | -200 |
| Blaenau Gwent | 1,500 | 1,500 | 0 | 1,500 | 1,500 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Tor-faen | 2,300 | 2,300 | 0 | 2,200 | 2,200 | 0 | 100 | 100 | 0 |
| Sir Fynwy | 4,500 | 3,900 | 600 | 4,400 | 3,700 | 700 | 200 | 200 | -100 |
| Casnewydd | 5,300 | 5,000 | 200 | 4,700 | 4,500 | 200 | 500 | 500 | 0 |

Ar gyfer yr amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol, caiff ymfudo ei ystyried fel pobl yn symud i mewn ac allan o awdurdod lleol.

Caiff ymfudo i mewn neu allan o'r DU ei ddiffinio fel ymfudo mewnol a chaiff ei gofnodi ar gyfer pob symudiad adeg ymfudo.

Caiff ymfudo i wledydd tramor neu o wledydd tramor ei ystyried fel ymfudo rhyngwladol. Fodd bynnag, caiff person ei ystyried fel mewnfudwr rhyngwladol dim ond os yw'n bwriadu ymfudo am gyfnod o 12 mis neu fwy. Caiff mewnfudwyr sy'n bwriadu aros am lai na 12 mis adeg yr ymfudo eu hystyried yn fewnfudwyr tymor byr ac ni chânt eu cynnwys yn y ffigurau ymfudo. Gwneir addasiad bob blwyddyn ar gyfer pobl sy'n newid hyd eu cyfnod aros o'u bwriad adeg ymfudo (llai na 12 mis i fwy na 12 mis neu'r ffordd arall).

Rhagwelir y canlynol ym mhob blwyddyn o gyfnod yr amcanestyniad:

- Bydd mwy o bobl yn symud i fwyafrif (20) yr awdurdodau lleol yng Nghymru nag y bydd yn symud allan. Yr eithriadau yw Merthyr Tudful a Thor-faen;
- Bydd y cynnydd net mwyaf o fewnfudwyr yn digwydd yn Sir Gaerfyrddin (tua 1,600 yn fwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael bob blwyddyn).

Gan ystyried ymfudo **o fewn y DU** (ymfudo mewnol) yn unig, rhagwelir y canlynol ym mhob flwyddyn yr amcanestyniad:

- Bydd y nifer fwyaf o fewnfudwyr i mewn ac allan o'r DU yng Nghaerdydd (15,200 a 15,700 yn y drefn honno), ond bydd yn profi mewnfudo net negyddol yn y DU (tua 600 yn fwy o bobl yn gadael nag yn cyrraedd bob blwyddyn);
- Bydd y nifer leiaf o fewnfudwyr i mewn ac allan o'r DU ym Merthyr Tudful (1,200 a 1,300 yn y drefn honno);
- Dim ond mewn dau awdurdod (Caerdydd a Merthyr Tudful) y bydd mwy o bobl yn gadael rhannau eraill o'r DU nag sy'n dod i'r awdurdod o weddill y DU (gostyngiad net o 600 a 100 yn y drefn honno);
- Yn Sir Gaerfyrddin fydd y gwahaniaeth mwyaf rhwng nifer y bobl sy'n cyrraedd a nifer y bobl sy'n gadael (cynnydd net o 1,700 o bobl y flwyddyn)

O ran ymfudo **o wledydd tramor** (ymfudo rhyngwladol) rhagwelir y canlynol ym mhob blwyddyn o'r amcanestyniad:

- Yng Nghaerdydd fydd y nifer fwyaf o ymfudwyr rhyngwladol i mewn ac allan bob blwyddyn (4,000 a 2,800 yn y drefn honno);
- Blaenau Gwent fydd yn profi'r nifer isaf o fewnfudwyr o wledydd tramor ac i wledydd tramor (tua 50 o bobl i'r ddau gyfeiriad);
- Bydd mwy o bobl yn cyrraedd o wledydd tramor nag a fydd yn gadael bob blwyddyn mewn naw awdurdod lleol;
- yng Nghaerffili fydd y gostyngiad net mwyaf o fewnfudwyr (tua 200 yn fwy o bobl yn gadael nag yn cyrraedd bob blwyddyn);
- yng Nghaerdydd fydd y cynnydd net mwyaf o fewnfudwyr (tua 1,200 yn fwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael bob blwyddyn).

Methodoleg a Thybiaethau

Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o'r fethodoleg gyffredinol a ddefnyddir wrth ffurfio'r thybiaethau. Bydd adroddiad technegol llawn yn cynnwys esboniadau mwy manwl o'r fethodoleg ar gael yn ddiweddarach yn 2008.

Methodoleg Amcangyfrifon Poblogaeth

O'i roi'n syml, caiff amcangyfrifon poblogaeth eu cyfrifo trwy:

- Gymryd amcangyfrif poblogaeth y flwyddyn flaenorol
- Cymryd grwpiau poblogaeth arbennig allan
- Ychwanegu blwyddyn at oed pob person
- Ychwanegu genedigaethau a thynnu marwolaethau
- Caniatáu ar gyfer mewnfudo ac allfudo
- Ychwanegu'n ôl y grwpiau poblogaeth arbennig

Defnyddir dull tebyg i gyfrifo amcanestyniadau poblogaeth. Fodd bynnag, er mwyn cynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth, mae angen ffurfio thybiaethau i amcanestyn lefelau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudiad yn y dyfodol ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae'r thybiaethau hyn yn seiliedig ar dueddiadau lleol mewn blynyddoedd diweddar.

Mae'r amcanestyniadau wedi cael eu cyfrifo yn ôl rhyw a blwyddyn sengl o oedran (hyd at 90 oed a throsodd). Golyga hyn y gall defnyddwyr eu cydgrynhoi'n grwpiau oedran o'u dewis.

Sail Poblogaeth

Mae'r amcanestyniadau poblogaeth yn defnyddio amcangyfrifon canol-blwyddyn 2006 fel y sail poblogaeth. Mae'r amcangyfrifon poblogaeth yn gysylltiedig ag oedran ar y pen-blwydd diwethaf. Cyhoeddwyd yr amcangyfrifon poblogaeth hyn gan yr ONS ym mis Awst 2007. Maent hefyd ar gael ar wefan StatsCymru:

www.statscymru.cymru.gov.uk

Mae'r amcangyfrifon poblogaeth a'r amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar y boblogaeth sy'n preswyl fel arfer. Cynhwysir pobl sy'n preswyl fel arfer oddi cartref dros dro, ond caiff ymwelwyr eu heithrio. Caiff myfyrwyr eu cyfrif yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor. Dylid nodi hefyd mai diffiniad y Cenhedloedd Unedig o ymfudwr rhyngwladol a ddefnyddir - y rhai sy'n newid gwlad breswyl am gyfnod o 12 mis o leiaf. Ni chaiff ymfudwyr tymor byr (ee gweithwyr mudol o wledydd Dwyrain Ewrop) eu cyfrif yn yr amcangyfrifon poblogaeth ac felly nis cynhwysir yn yr amcanestyniadau poblogaeth.

Tybiaethau Ffrwythlondeb

Cynhyrchwyd tybiaethau ffrwythlondeb hirdymor oed-benodol ar gyfer pob awdurdod lleol trwy ddadansoddi tueddiadau ffrwythlondeb oed-benodol ar gyfer pob awdurdod lleol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Cafwyd data genedigaethau hanesyddol yn ôl oedran y fam ar gyfer pob awdurdod lleol gan y system gofrestru digwyddiadau bywyd (ONS).

Cafodd Cyfraddau Ffrwythlondeb Oed-benodol eu cyfrifo ar gyfer benywod o 15 i 49 oed fesul blwyddyn sengl o oedran am bob awdurdod lleol yng Nghymru. Caiff y cyfraddau hyn eu cyfrifo trwy rannu'r nifer o enedigaethau byw i fenywod X oed â chyfanswm nifer y benywod X oed a lluosî â 1,000.

Cafodd y tybiaethau cyfradd ffrwythlondeb ar gyfer yr amcanestyniadau poblogaeth eu cyfrifo trwy:

- gymryd lefelau cyfanswm genedigaethau pob awdurdod lleol yn 2005/06
- dosbarthu lefelau cyfanswm y genedigaethau i'r grwpiau oedran (er mwyn cyfrifo Cyfraddau Ffrwythlondeb Oed-benodol) gan ddefnyddio cyfartaledd 5 mlynedd o'r Cyfraddau hyn
- gweithredu gwahaniaethau ffrwythlondeb yr ONS a gyfrifwyd o ddata a gynhyrchwyd yn yr amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol i gyfrif am newidiadau mewn ffrwythlondeb dros amser.

Rhoddir y tybiaethau ffrwythlondeb sy'n deillio o hyn ar gyfer pob awdurdod lleol yn yr adran Trosolwg o'r Canlyniadau.

Tybiaethau Marwolaethau

Cynhyrchwyd tybiaethau marwolaethau hirdymor oed-benodol ar gyfer pob awdurdod lleol trwy ddadansoddi tueddiadau marwolaethau oed-benodol ar gyfer pob awdurdod lleol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Cafwyd data marwolaethau hanesyddol yn ôl rhyw ac oedran ar gyfer pob awdurdod lleol gan y system gofrestru digwyddiadau bywyd (ONS).

Cafodd Cyfraddau Marwolaethau Oed-benodol eu cyfrifo ar gyfer gwrywod a benywod o'r newydd-anedig i 90+ oed fesul blwyddyn sengl o oedran am bob awdurdod lleol yng Nghymru. Caiff y cyfraddau hyn eu cyfrifo am bob blwyddyn sengl o oedran a rhyw trwy rannu'r nifer o farwolaethau pobl X oed â'r boblogaeth X oed a lluosî â 1,000.

Cafodd y tybiaethau cyfradd marwolaethau ar gyfer yr amcanestyniadau poblogaeth eu cyfrifo trwy:

- gymryd lefelau cyfanswm marwolaethau pob awdurdod lleol yn 2005/06;
- dosbarthu lefelau cyfanswm y marwolaethau i'r grwpiau oedran (er mwyn cyfrifo Cyfraddau Marwolaeth Oed-benodol) gan ddefnyddio cyfartaledd 5 mlynedd o'r Cyfraddau hyn;

- gweithredu gwahaniaethau marwolaethau'r ONS a gyfrifwyd o ddata a gynhyrchwyd yn yr amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol i gyfrif am newidiadau mewn marwoldeb dros amser.

Nodir y ffigurau disgwyliad oes sy'n deillio o hyn ar gyfer pob awdurdod lleol yn yr adran Trosolwg o'r Canlyniadau.

Tybiaethau Ymfudiad

Er mwyn cynhyrchu'r amcanestyniadau poblogaethau roedd angen tybiaethau am fewnfudo ac allfudo mewnol (o fewn y DU). Yn ogystal â hyn, roedd angen tybiaethau am fewnfudo ac allfudo rhyngwladol.

Cynhyrchwyd tybiaethau ymfudiad hirdymor ar gyfer pob awdurdod lleol trwy ddadansoddi tueddiadau ymfudiad oed-benodol a rhyw-benodol ar gyfer pob awdurdod lleol yn y 5 mlynedd flaenorol. Cafwyd data ymfudiad hanesyddol yn ôl rhyw ac oedran ar gyfer pob awdurdod lleol gan yr ONS. Mae amcangyfrifon mewnfudo mewnol yn seiliedig ar wybodaeth o gofrestrïadau gyda meddygon teulu. Mae amcangyfrifon mewnfudo rhyngwladol yn seiliedig ar wybodaeth gan yr Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS) ynghyd â gwybodaeth o ffynonellau eraill (ee Ceiswyr Lloches etc).

Yn wyneb yr anwadalwch sy'n gysylltiedig â ffigurau ymfudiad blwyddyn ar flwyddyn, mae tybiaethau ymfudiad mewnol a rhyngwladol (mewnfudo ac allfudo) hirdymor yn seiliedig ar y 5 mlynedd ddiwethaf o ddata. Golyga hyn dybiaeth ymfudiad sefydlog ar gyfer mewnfudo ac allfudo.

Rhoddir y tybiaethau mewnfudo ac allfudo, mewnol a rhyngwladol yn yr adran Trosolwg o'r Canlyniadau.

Poblogaethau Arbennig

Grwpiau poblogaeth arbennig yw is-setiau o'r boblogaeth sydd â strwythurau oedran penodol, sy'n weddol gyson dros amser. Nid yw grwpiau poblogaeth arbennig yn cael eu dal yn arferol o fewn amcangyfrifon ymfudiad (mewnol a rhyngwladol). Caiff poblogaethau o'r fath eu hadnabod hefyd fel 'poblogaethau sefydlog'.

Gan fod gan y grwpiau hyn strwythurau oedran gweddol sefydlog, ni fyddai'r model amcanestyniadau o ychwanegu at oedran yn briodol (ee byddai bachgen 17 oed mewn ysgol breswyl yn 22 o fewn 5 mlynedd ond ni fyddai'n byw yn yr ysgol breswyl a byddai rhywun tebyg o ran oed wedi cymryd ei le).

Er mwyn rhwystro ychwanegu at oedran y poblogaethau hyn:

- caiff poblogaethau arbennig (yn ôl oed a rhyw) eu tynnu ymaith ar ddechrau pob blwyddyn o'r amcanestyniad;
- gweithredir y model amcanestyniadau ar gyfer gweddill y boblogaeth;

- caiff y poblogaethau arbennig (yn ôl oed a rhyw) eu hychwanegu'n ôl ar ddiwedd y broses ar gyfer pob blwyddyn o gyfnod yr amcanestyniad.

Er mwyn cynnal cysondeb â'r Amcangyfrifon Canol-Blwyddyn, mae'r canlynol wedi cael eu hystyried fel grwpiau Poblogaethau Arbennig yn amcanestyniadau is-genedlaethol Cymru:

- Lluoedd Arfog Cartref
- Carcharorion
- Disgyblion Ysgolion Preswyl

Amcanestyniadau Amrywolion

Er mwyn darlunio'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau amrywolion hefyd wedi cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Mae amcanestyniad dim ymfudiad (newid naturiol yn unig) wedi cael ei gynhyrchu i ddangos poblogaeth amcanestynedig pob awdurdod lleol pe na bai unrhyw fewnfudo nac allfudo yn y dyfodol.

Mae amcanestyniadau amrywolion uchel ac isel hefyd wedi cael eu cyhoeddi. Mae'r amrywiad uchel wedi'i seilio ar dybiaethau o ffrwythlondeb uchel a marwolaeth isel, ac mae'r amrywiad isel wedi'i seilio ar dybiaethau o ffrwythlondeb isel a marwolaeth uchel.

Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol a Lleol

Cefndir i'r Amcanestyniadau Cenedlaethol

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn llunio amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol ar gyfer Cymru a gwledydd eraill y DU. Caiff y rhain eu llunio bob dwy flynedd fel arfer. Mae bwletin ystadegol yn dadansoddi'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol ar gyfer Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru: www.cymru.gov.uk/ystadegau

Methodoleg fras yr Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol

Mae'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r amcanestyniadau poblogaeth yn dilyn tueddiadau demograffig. Mae ONS yn cytuno ar y rhain ar y cyd â'r gweinyddiaethau datganoledig, yn dilyn ymgynghoriad â defnyddwyr allweddol amcanestyniadau ym mhob gwlad a chyingor gan banel academaidd arbenigol.

Mae'r rhagdybiaethau ffrwythlondeb ar gyfer pob gwlad yn deillio o ddadansoddi tueddiadau ffrwythlondeb diweddar, a maint teulu cyflawn ar gyfer carfannau o fenywod dros gyfnod hir o amser.

Mae'r rhagdybiaethau marwolaeth yn deillio o ddadansoddi'r gwelliannau mewn cyfraddau marwolaeth yn y DU yn gyffredinol dros gyfnod hir. Yn gyffredinol, y rhagdybiaeth ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol yw eu bod yr un fath ledled y DU, ond cânt eu cymhwyso i'r cyfraddau marwolaeth cyfredol ym mhob gwlad. Felly cedwir gwahaniaethau disgwyliad oes cyfredol y pedair gwlad.

Mae rhagdybiaeth ymfudo rhyngwladol y DU yn deillio'n bennaf o fodel llif IPS sy'n seiliedig ar gyfres hirhoedlog ond sy'n rhoi mwy o bwys i ddata mwy diweddar. Gwneir addasiadau ar gyfer trosglwyddwyr, ceiswyr lloches a Gweriniaeth Iwerddon. Yn gyffredinol, mae rhagdybiaethau'r DU ar gyfer pob cydran wedi'u rhannu rhwng y gwledydd yn unol â'u cyfra dros y deng mlynedd diwethaf. Mae rhagdybiaeth ymfudo trawsffiniol yn seiliedig ar gyfartaledd yr amcangyfrifon dros y deng mlynedd diwethaf, ar sail data NHSCR.

Hanes: ymdrechion i lunio amcanestyniadau ar gyfer awdurdodau lleol sy'n cyd-fynd â'r amcanestyniadau cenedlaethol

Yn y gorffennol, gwnaed ymdrech i lunio amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer y 22 awdurdod unedol yng Nghymru sy'n cyd-fynd (h.y. yn cyfateb â chyfanswm) ag amcanestyniadau poblogaeth Cymru.

Roedd y Swyddfa Gymreig yn bwriadu llunio amcanestyniadau ar gyfer awdurdodau lleol ar sail 1996, ond nid oedd modd dod o hyd i ganlyniadau ystyrllon ar gyfer awdurdodau lleol.

Comisiynwyd ONS i lunio amcanestyniadau ar gyfer awdurdodau lleol ar sail 1998, yna ar sail 2003, gan ddefnyddio'r model a ddefnyddir ar gyfer amcanestyniadau awdurdodau lleol Lloegr. O dan fethodoleg ONS, roedd rhagdybiaethau lleol am ffrwythlondeb a marwolaeth yn ôl oedran a rhyw yn seiliedig ar wybodaeth cofrestru genedigaethau a marwolaeth ar gyfer y pum mlynedd blaenorol. Fel rhan o'r broses o lunio amcanestyniadau, cafodd y cyfraddau ffrwythlondeb a marwolaeth eu graddio ar gyfer pob blwyddyn y lluniwyd amcanestyniad ar ei chyfer, fel bod y cyfraddau cenedlaethol a niferoedd amcanol y genedigaethau a'r marwolaethau'n cyd-fynd â'r amcanestyniadau cenedlaethol.

Fodd bynnag, yn ystod proses sicrhau ansawdd y ddwy set o amcanestyniadau (1998 a 2003), gwnaed y penderfyniad i beidio â chyhoeddi amcanestyniadau ar gyfer awdurdodau lleol, gan nad oedd y fethodoleg wedi cynnig canlyniadau cyson ac ystyrllon. Er i'r ffaith bod y genedigaethau a'r marwolaethau wedi cael eu graddio yn sicrhau bod cyfanswm y genedigaethau a'r marwolaethau yn cyd-fynd â'r amcanestyniadau cenedlaethol, nid oedd y cyfraddau lleol yn adlewyrchu tueddiadau lleol diweddar. Roedd graddio hefyd yn fwy arwyddocaol mewn ardaloedd llai fel y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Arweiniodd hyn at gyhoeddi'r amcanestyniadau ar lefel ranbarthol.

Mae dull newydd wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu amcanestyniadau'r awdurdodau lleol ar sail 2006. Nid yw amcanestyniadau poblogaeth yr awdurdodau lleol wedi cael eu cyfyngir gan yr amcanestyniadau cenedlaethol (naill ai'n ar y cyfan neu fesul cydrannau). Mae amcanestyniadau'r awdurdodau lleol yn seiliedig ar fethodoleg wahanol i benderfynu ar y rhagdybiaethau.

Gwahaniaethau rhwng yr amcanestyniadau cenedlaethol ac amcanestyniadau'r awdurdodau lleol

Nod allweddol y gwaith hwn yw llunio amcanestyniadau poblogaeth cadarn ar gyfer awdurdodau lleol Cymru, sy'n adlewyrchu tueddiadau lleol y blynyddoedd diweddar. Prif ddiben yr amcanestyniadau cenedlaethol yw llunio amcanestyniadau poblogaeth cadarn ar gyfer Cymru sy'n adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol y blynyddoedd diweddar.

Mae'r amcanestyniadau cenedlaethol ac amcanestyniadau'r awdurdodau lleol yn wahanol am ddau brif reswm:

- (a) rhagdybiaethau
- (b) lefel ddaearyddol sy'n sail i'r rhagdybiaeth a lle cymhwysir y rhagdybiaethau.

(a) Rhagdybiaethau

Mae'r fethodoleg a ddefnyddir i greu rhagdybiaethau yn amcanestyniadau'r awdurdodau lleol yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir yn yr amcanestyniadau cenedlaethol. Mae rhai o'r rhain yn sgil ffynonellau data ychydig yn wahanol. Er enghraifft, defnyddiwyd tueddiadau ymfudo o fewn y DU dros ddeng mlynedd i bennu rhagdybiaethau ymfudo

yn yr amcanestyniadau cenedlaethol, ond dim ond data ymfudo dros bum mlynedd a ddefnyddiwyd yn amcanestyniadau'r awdurdodau lleol. Mae hyn oherwydd nad oedd y ffynhonnell wybodaeth am ymfudo ar lefel awdurdod lleol ar gael ar gyfer cyfres ddeng mlynedd.

Hefyd, er y gallai un set o ragdybiaethau gyd-fynd yn dda â thueddiad cenedlaethol, efallai nad yw defnyddio rhagdybiaethau tebyg yn arwain at ganlyniadau ymarferol i'r 22 awdurdod lleol bob tro oherwydd natur wahanol a thueddiadau'r awdurdodau lleol.

(b) lefel ddaeryddol sy'n sail i'r rhagdybiaeth a lle cymhwysir y rhagdybiaethau


Mae'r lefel ddaeryddol sy'n sail i'r rhagdybiaeth a lle cymhwysir y rhagdybiaethau hefyd yn bwysig. Er enghraifft, nid yw'n briodol i gyfanswm y cyfraddau lleol (e.e. ffrwythlondeb) ddeillio o gyfradd genedlaethol, ac felly bydd model sy'n gweithredu ar lefelau daeryddol gwahanol (ond yn defnyddio cyfraddau) yn arwain at ganlyniadau gwahanol i'r lefelau daeryddol gwahanol.

Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol a chyfanswm amcanestyniadau'r 22 awdurdod lleol

Mae'n bosibl mesur y gwahaniaethau a welir yn sgil defnyddio rhagdybiaethau gwahanol drwy gymharu'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol ag amcanestyniadau ar lefel Cymru. Lluniwyd amcanestyniad Cymru drwy redeg y model amcanestyniad ar lefel Cymru, a defnyddio'r union fethodoleg â'r hyn a ddefnyddiwyd i lunio amcanestyniadau'r awdurdodau lleol. [Noder fod amcanestyniad Cymru yn wahanol i gyfanswm amcanestyniadau'r 22 awdurdod lleol].

Ar gyfer amcanestyniadau lefel Cymru, mae'r canlyniadau yn dilyn patrwm a lefel tebyg i'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol a luniwyd gan ONS (gweler Ffigur 1).


Ffigur 1: Cymhariaeth cyfanswm poblogaeth yn ôl yr amcanestyniad, canol 2006 i ganol 2031



Mae'r gwahaniaeth rhwng amcanestyniadau lefel Cymru ac amcanestyniad poblogaeth cenedlaethol Cymru yn eithaf bach yn 2011 (tua 10,000). Mae'r bwlch yn cynyddu dros gyfnod yr amcanestyniadau i oddeutu 25,000 yn 2016 ac 70,200 yn 2031 (tua 2 y cant o'r boblogaeth).

Mae cymariaethau cydrannau genedigaethau a marwolaethau pob set hefyd yn dangos gwahaniaethau bach yn unig (gweler Ffigur 2).

Ffigur 2: Cymhariaeth Genedigaethau a Marwolaethau, 2005/06 i 2030/31



Pwyntiau allweddol o Ffigur 2:


- Mae nifer y genedigaethau a amcangyfrifir yng Nghymru ym mhumed flynedd ar hugain yr amcanestyniad tua 360 yn uwch na'r amcanestyniad cenedlaethol.
- Mae'r ffigurau marwolaeth yn agos drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.
- +9,500 yw'r rhagdybiaeth ymfudo net yn yr amcanestyniadau cenedlaethol. +12,200 yw ffigur cyfatebol yr amcanestyniadau ar lefel Cymru.

Defnyddio'r un rhagdybiaethau ar gyfer awdurdod lleol ac amcanestyniad i Gymru

Mae'n bosibl mesur y gwahaniaethau a welir o ganlyniad i seilio a chymhwyso rhagdybiaethau ar lefelau daearyddol gwahanol drwy gymharu cyfanswm amcanestyniadau'r 22 awdurdod lleol gydag amcanestyniad lefel Cymru. Lluniwyd amcanestyniad Cymru drwy redeg y model amcanestyniad ar lefel Cymru, a defnyddio'r union fethodoleg â'r hyn a ddefnyddiwyd i lunio amcanestyniadau'r awdurdodau lleol. [Noder fod amcanestyniad Cymru yn wahanol i gyfanswm amcanestyniadau'r 22 awdurdod lleol.

Mae amcanestyniad Cymru yn dilyn patrymau a lefelau tebyg iawn i gyfanswm amcanestyniadau'r 22 awdurdod lleol (gweler Ffigur 3).


Ffigur 3: Cymhariaeth Cyfanswm y Boblogaeth



Y gwahaniaeth rhwng amcanestyniad poblogaeth Cymru a chyfanswm y 22 awdurdod lleol yw oddeutu 1,200 yn 2015 ac oddeutu 12,500 ym mhumed flynedd ar hugain yr amcanestyniad.

Mae rhai gwahaniaethau yng nghymariaethau cydrannau genedigaethau a marwolaethau pob set – yn enwedig yn nifer y genedigaethau yn yr amcanestyniad (gweler Ffigur 4). Mae cyfraddau marwolaeth penodol i oedran yn weddol debyg rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru; fodd bynnag, mae'r cyfraddau ffrwythlondeb yn amrywio'n sylweddol (mae'r gyfradd ffrwythlondeb yn amrywio o oddeutu 1.4 yng Ngheredigion i oddeutu 2.1 yn Sir Benfro yn 2006).

Ffigur 4: Cymhariaeth genedigaethau a marwolaethau 2005/06 i 2030/31



Mae nifer y genedigaethau yn yr amcanestyniad erbyn 2015/2016 yng nghyfanswm amcanestyniadau'r awdurdodau lleol oddeutu 200 uwch nag yn amcanestyniadau Cymru. Mae nifer y genedigaethau yn yr amcanestyniad oddeutu 900 yn uwch erbyn pumed flynedd ar hugain yr amcanestyniad. Mae'r ffigurau marwolaeth yn agos drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Mae nifer y genedigaethau yn amcanestyniad Cymru yn agos i nifer y genedigaethau yn yr amcanestyniadau cenedlaethol. Mae hyn yn golygu mai cymhwyso'r model ar lefel ddaearyddol yw'r prif reswm dros nifer y genedigaethau yn yr amcanestyniadau is-genedlaethol a'r amcanestyniadau cenedlaethol.

Casgliad

Erbyn 2011, sef pumed flynedd cyfnod yr amcanestyniad, mae'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm amcanestyniadau'r 22 awdurdod lleol ac amcanestyniad Cymru yn fach (400). Erbyn 2011, oddeutu 10,000 yw'r gwahaniaeth rhwng amcanestyniad lefel Cymru a'r amcanestyniad cenedlaethol. Mae'r gwahaniaeth yn cynyddu i 1,200 a 25,000 yn y drefn honno erbyn 2016. Erbyn 2031, sef pumed flynedd ar hugain cyfnod yr amcanestyniad, tua 12,500 yw'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm amcanestyniadau'r 22 awdurdod lleol ac amcanestyniad lefel Cymru, ac oddeutu 72,200 yw'r gwahaniaeth rhwng amcanestyniad lefel Cymru a'r amcanestyniad cenedlaethol.

Mae rhagdybiaethau gwahanol yn cyfrif am fwyafrif y gwahaniaeth rhwng yr amcanestyniadau cenedlaethol ac amcanestyniadau'r awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae angen rhagdybiaethau gwahanol yn sgil nifer o broblemau argaeledd data, ac er y gallai un set o ragdybiaethau fod yn addas ar gyfer tueddiad cenedlaethol, efallai nad yw defnyddio rhagdybiaethau tebyg yn arwain at ganlyniadau ymarferol i'r 22 awdurdod lleol oherwydd natur wahanol a thueddiadau'r awdurdodau lleol.

Mae defnyddio dull o'r gwaelod i fyny (h.y. defnyddio tueddiadau lleol ar lefel leol) hefyd yn cyfrannu at y gwahaniaeth. Mae dull o'r gwaelod i fyny yn bwysig o ystyried nifer y genedigaethau yn yr amcanestyniad yn arbennig – mae hyn yn sgil y patrymau ffrwythlondeb gwahanol iawn ar draws amcanestyniadau'r awdurdodau lleol yng Nghymru.

Pryd i ddefnyddio amcanestyniadau cenedlaethol ac amcanestyniadau'r awdurdodau lleol

Dylid defnyddio amcanestyniadau poblogaeth yr awdurdodau lleol a lunnir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth edrych ar y boblogaeth yn amcanestyniadau un neu fwy o'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Dylid eu defnyddio hefyd wrth gymharu amcanestyniadau poblogaeth yr awdurdodau lleol.

Dylid defnyddio cyfanswm amcanestyniadau'r awdurdodau lleol dim ond wrth edrych ar y boblogaeth yn amcanestyniad un awdurdod lleol neu fwy fel cyfran o gyfanswm Cymru.

Mae amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol Cymru sy'n cael eu llunio gan ONS yn seiliedig ar fethodoleg wahanol o amcanestyniadau poblogaeth yr awdurdodau lleol a lunnir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r ddwy set o amcanestyniadau'n seiliedig ar dueddiadau mewn amcangyfrifon genedigaethau, marwolaethau ac ymfudo, ond mae'r dulliau o benderfynu ar y rhagdybiaethau'n wahanol. Felly, mae cyfanswm amcanestyniadau'r awdurdodau lleol yn wahanol i amcanestyniad poblogaeth cenedlaethol Cymru.

Dylid defnyddio'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol a lunnir gan ONS wrth edrych ar y boblogaeth yn amcanestyniad Cymru yn gyffredinol. Hefyd dylid defnyddio'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol wrth gymharu'r boblogaeth yn amcanestyniad Cymru â gwledydd eraill y DU.

Gwaith Pellach

Dyma'r tro cyntaf i amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer y 22 awdurdod lleol yng Nghymru gael eu cynhyrchu. Mae amcanestyniadau poblogaeth yn esblygu'n barhaus – wrth i ddata newydd gael ei gasglu a gwell dulliau ar gyfer amcangyfrif y boblogaeth yn cael eu cyflwyno, mae'r dulliau ar gyfer amcanestyn y boblogaeth hefyd yn gwella.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol, ymchwilir i nifer o faterion/methodolegau ar hyn o bryd.

Myfyrwyr

Yn sgil eu nodweddion penodol (ffrwythlondeb isel, ymfudiad uchel), rhoddwyd ystyriaeth i'r cwestiwn a ellid edrych ar fyfyrwyr fel grŵp poblogaeth arbennig yn yr amcanestyniadau poblogaeth. Gwrthodwyd y cynnig hwn oherwydd nid oedd yn bosibl tynnu myfyrwyr (a graddedigion wedi hynny) o'r amcangyfrifon ymfudo. Roedd hyn oherwydd y data cyfyngedig a oedd ar gael o ffynonellau eraill.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar ddichonoldeb trin myfyrwyr fel grŵp poblogaeth arbennig. Bydd y gwaith hwn yn asesu'r graddau y gellir defnyddio data newydd sydd ar gael oddi wrth yr Asiantaeth Myfyrwyr Addysg Uwch.

Modelau tueddiadau ymfudo

Ystyriwyd defnyddio modelau tueddiadau ymfudo fel rhan o'r broses ar gyfer cynhyrchu tybiaethau ymfudo. Mae modelau o'r fath yn ystyried y tebygolrwydd o berson yn symud o ardal X i ardal Y.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i asesu dichonoldeb defnyddio modelau tueddiadau ymfudo yn y dyfodol.

Gwahaniaethau ar gyfer ffrwythlondeb a marwolaethau

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar y gwahaniaethau oedran a ddefnyddir yn y tybiaethau ffrwythlondeb a marwolaethau.

Amcanestyniadau Cartrefi

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn ffurfio sail ar gyfer amcanestyniadau cartrefi. Mae gwaith yn cael ei wneud ar gynhyrchu amcangyfrifon ac amcanestyniadau cartrefi i Gymru. Disgwylir bydd y gwaith yma'n cael ei gyhoeddi yn hwyrach yn 2008.

Gwybodaeth am Ansawdd

Darperir gwybodaeth am ansawdd drwy'r cyhoeddiad hwn. Mae detholiad o wybodaeth allweddol am ansawdd ar gael isod hefyd. Bydd adroddiad technegol llawn yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd 2008.

Diffiniadau

Caiff yr amcanestyniad poblogaeth ei lunio ar 30 Mehefin bob blwyddyn. Mae cydrannau'r amcanestyniad (genedigaethau, marwolaethau ac ymfudo) yn seiliedig ar gyfnod o flwyddyn (canol y flwyddyn i ganol y flwyddyn).

Poblogaeth Sylfaenol

Mae amcangyfrifon poblogaeth canol 2006 wedi cael eu defnyddio fel poblogaeth sylfaenol yr amcanestyniadau hyn.

Amcangyfrifon Poblogaeth

Mae'r rhain yn seiliedig ar y trigolion arferol. Mae'r trigolion arferol sydd i ffwrdd o gartref dros dro wedi cael eu cynnwys, ond nid yw ymwelwyr wedi cael eu cynnwys. Caiff myfyrwyr eu cyfrif yn eu cyfeiriad tymor. Dylid nodi hefyd y defnyddir diffiniad y Cenhedloedd Unedig o fewnfudwr rhyngwladol - y rheini sy'n newid eu gwlad breswyl am gyfnod o 12 mis o leiaf. Nid yw mewnfudwyr dros dro (e.e. gweithwyr mudol o wledydd Dwyrain Ewrop) wedi'u cyfrif yn yr amcangyfrifon poblogaeth ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr amcanestyniadau poblogaeth.

Cyfraddau Ffrwythlondeb Penodol i Oedran (ASFR)

Mae ASFR yn cyfeirio at gyfanswm nifer y genedigaethau fesul 1,000 o fenywod o oedran penodol (cyfrifir ar gyfer menywod 15-45 oed yn unig).

Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb (TFR)

Cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb yw nifer cyfartalog y plant a fyddai'n cael eu geni i bob menyw os byddai menywod yn profi'r cyfraddau ffrwythlondeb penodol i'w hoedran yn y flwyddyn dan sylw drwy gydol eu cyfnod planta.

Ffrwythlondeb Lefel Adnewyddu

Ystyr hyn yw'r lefel o ffrwythlondeb sydd ei hangen i'r boblogaeth adnewyddu'i maint yn yr hirdymor gan ystyried cyfraddau marwolaeth cyson ac absenoldeb ymfudo.

Cyfraddau Marwolaeth Penodol i Oedran (ASMR)

Mae ASMR yn cyfeirio at gyfanswm nifer y marwolaethau fesul 1,000 o bobl o oedran penodol.

Disgwyliad oes adeg geni

Y 'disgwyliad oes' yw'r hyd oes ar gyfartaledd y byddai pobl o oedran penodol yn ei fyw pe byddent yn wynebu'r gyfradd farwolaeth ar gyfartaledd sydd wedi'i chofnodi ar gyfer y flwyddyn dan sylw.

Ymfudo Mewnol

Mae mewnfudo mewnol (neu o fewn y DU) yn cyfeirio at bobl yn symud o fewn y DU, er enghraifft o un awdurdod lleol i'r llall. Mae pob Awdurdod Iechyd yn cadw cofrestr o

gleifion sydd wedi'u cofrestru gyda'u meddygon teulu, sef y System Data Cofrestr Cleifion (PRDS). Mae cyfuno pob cofrestr cleifion yng Nghymru a Lloegr a'u cymharu â chofrestr y flwyddyn flaenorol yn nodi pobl sydd wedi newid eu cod post.

Ymfudo Rhyngwladol

Mae Ymfudo Rhyngwladol yn cyfeirio at bobl sy'n symud i wledydd y tu allan i'r DU, neu bobl sy'n symud i'r DU. Defnyddir diffiniad y Cenhedloedd Unedig o fewnfudwr rhyngwladol - sef y rheini sy'n newid eu gwlad breswyl am gyfnod o 12 mis o leiaf. Amcangyfrifir symudiadau ymfudo rhyngwladol drwy gyfuno data o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS), data'r Swyddfa Gartref ar geiswyr lloches a throsglwyddiadau ymwelwyr, ynghyd ag amcangyfrifon ymfudo rhwng Gweriniaeth Iwerddon a Chymru o Arolwg o Lafurlu Iwerddon.

Oedran Gweithio ac Oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Mae'r holl ffigurau yn yr adroddiad hwn ar gyfer poblogaeth oedran gweithio ac oedran pensiwn yn seiliedig ar oedran pensiwn y wladwriaeth ar gyfer y flwyddyn dan sylw. Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed i ddynion a 60 oed i fenywod, i 65 oed i ddynion a menywod. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 oed i 68 oed i ddynion a menywod.

Daearyddiaeth a Ffiniau

Mae'r amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol, ac maent yn seiliedig ar y ffiniau a ddefnyddir ar gyfer amcangyfrifon poblogaeth canol 2006. Gallai data hanesyddol a ddefnyddiwyd i lunio rhagdybiaethau fod yn seiliedig ar ffiniau ychydig yn wahanol.

Amllder

Mae'r rhan fwyaf o'r data sylfaenol ar gael yn flynyddol. Rhagwelir y bydd amcanestyniadau'r awdurdodau lleol yn cael eu cyhoeddi bob dwy flynedd (yn yr un modd â'r amcanestyniadau cenedlaethol)

Diwygiadau

Nid oes bwriad i ddiwygio amcanestyniadau'r awdurdodau lleol ar gyfer 2006. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y boblogaeth sylfaenol (amcangyfrifon canol 2006) yn cael eu diwygio yn y dyfodol. Bydd hyn yn effeithio ar gyfraddau ffrwythlondeb a marwolaeth hanesyddol.

Siartiau

Noder nad yw'r siartiau a ddefnyddir yn y ddogfen hon bob amser yn dechrau ar 0, ac maent yn seiliedig ar raddfeydd gwahanol.

Symbolau

Mae'r symbol canlynol wedi cael ei ddefnyddio drwy'r cyhoeddiad cyfan:
- nid sero yn union yw'r eitem data, ond mae wedi'i dalgrynnu i sero.

Gwybodaeth Bellach

Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol

Mae adroddiad awdurdodau lleol, taflen gyfarwyddyd, cwestiynau cyffredin a gwybodaeth bellach ar yr amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol (sail-2006) ar gael yn:

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Mae ciwbiau data ar gael ar StatsCymru:

(Population and Migration / Population / Projections / 2006-based local authority)

www.statscymru.cymru.gov.uk

Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol Cymru

Ceir dadansoddiad o amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol Crymu (sail-2006) ym Mhennod 4 yr adroddaid demograffeg 'Poblogaeth Cymru, 2008':

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Mae ciwbiau data ar gael ar StatsCymru:

(Population and Migration / Population / Projections / 2006-based national)

www.statscymru.cymru.gov.uk

Ceir gwybodaeth fanwl bellach ar wefan GAD (Saesneg yn unig):

www.gad.gov.uk

Data am y Boblogaeth ac Ymfudo

Ceir gwybodaeth ar sut i gael mynediad at ddata am y boblogaeth ac ymfudo ar dudalen thema Poblogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru:

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Manylion Cyswilt

Am ymholiadau ar yr amcanestyniadau, neu ymholiadau cyffredinol ar ddata demograffeg, cysylltwch â:

Ystadegau Demograffi, Treftadaeth a Chydraddoldeb

Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: stats.popcensus@wales.gsi.gov.uk

ffôn: 029 2082 5058